- Nyrsio Cymunedol a Gwasanaethau Nyrsio Dewi Sant - darparu ystod o glinigau a gwasanaethau gofal iechyd yn y ganolfan ac yn y gymuned.

Mae'r ganolfan hefyd yn cynnal caffi cymunedol bychan i aelodau'r cyhoedd ei ddefnyddio.

**Ein Diben:**

- Rydym yn hyrwyddo profiad yn seiliedig ar berthynas o dderbyn gofal a chymorth sy'n galluogi bywyd mwy naturiol, sy’n hyrwyddo dewis, rheolaeth, annibyniaeth ac yn diwallu anghenion cymdeithasol ac emosiynol y bobl rydym yn eu cefnogi.
- Gwell gwrando ac asesu. Rydym yn deall 'beth sy'n bwysig' ac rydym yn adnabod y person 'fel arfer'. Yn y cyd-destun hwn, mae cymorth person-ganolog ond am
  yr unigolyn ac yn seiliedig ar anghenion unigol y person o ran hunanreolaeth, cynhwysiad, hunaniaeth, ymlyniad a chysur.
- Ei wneud yn gartref. Rydym yn cydnabod bod "cartref" yn wahanol i bob un ohonom ac mae ein cartrefi yn adlewyrchu pwy ydym fel unigolyn. I'r rhai sy'n byw ac yn aros ym Mharc y Maerdy, byddwn yn cefnogi’r person i greu cartref a bod gartref; beth yw cysur, diogelwch ac unigoliaeth i chi. Bydd ardaloedd a rennir yn adlewyrchu'r bobl sy'n byw yn y cartref a'u hoffterau.
- Gwasanaethau yn cefnogi ysbryd y person. Byddwn yn rhoi'r un pwys ar les cymdeithasol ac emosiynol y person yn ogystal â'i les corfforol.
- Mae gwasanaethau'n cefnogi teuluoedd, ffrindiau a phobl bwysig eraill i barhau i gymryd rhan a byddant yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys ac yn cael gwrandawiad ac anogaeth i eirioli’n weithredol dros eu hanwyliaid.
- Mae'r ganolfan yn edrych, yn swnio ac yn teimlo fel lle i unigolion fynegi eu hunain, cael hwyl, gwneud sŵn, cymryd rhan, bod yn brysur a dod o hyd i enciliad a phreifatrwydd, ac y mae, wrth ei wraidd, beth bynnag mae angen iddo fod er mwyn ymateb i sut mae unrhyw berson yn teimlo ar unrhyw adeg benodol.
- Rydym yn cydnabod pwysigrwydd bwyd a diod i lesiant person. Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd bwyd a sicrhau ein bod yn diwallu anghenion maethol a dietegol yr unigolyn.
- Cynnal cysylltiadau â'u cymunedau lleol - cefnogi pobl i gadw ymdeimlad o hunaniaeth bersonol a chynhwysiant yn y gymuned leol. Bydd cymunedau'n dod yn fwy cynhwysol a bydd ymwybyddiaeth o ddementia’n cynyddu. Byddwn yn mynd ati i chwilio am gyfleoedd i ymgysylltu â'r gymuned leol drwy gael mynediad i'r gymuned a gwahodd grwpiau cymunedol i ymweld yn rheolaidd.
- Mae gwasanaethau'n gweithio'n agos gyda phawb sy'n ymwneud â chefnogi'r unigolyn ac mae perthynas uniongyrchol yn bodoli sy'n cefnogi dull di-dor ac annibynnol.

- Mae rôl ein timau’n datblygu. Rydym yn defnyddio sgiliau aelodau tîm unigol yn fwy ac yn teimlo eu bod yn cael eu grymuso a'u gwerthfawrogi a bod eu lles yn gwella.
- Mae aelodau tîm unigol yn cymryd rhan lawn mewn datblygiadau.

Mae pawb sy'n ymwneud â gofal a chymorth unigolion yn mynd ati i hyrwyddo canlyniadau'r gwasanaeth uchod.

**Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach am y rôl hon, cysylltwch os gwelwch yn dda â: Maria Thomas 01873 853706**

**Dyddiad Cau: 12 canol dydd ar 27ain Medi 2019**

**Gofynnir i chi nodi na allwn dderbyn CVau**

**Gellir cwblhau ffurflenni cais ar-lein neu eu lawrlwytho o:**
**www.monmouthshire.gov.uk/how-to-apply-for-council-jobs**

Gellir cyflwyno ceisiadau yn y Gymraeg ac ni chaiff cais a gyflwynir yn y Gymraeg ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.

**Dylid dychwelyd ffurflenni cais papur wedi'u cwblhau, i'r cyfeiriad canlynol:-**
**Gwasanaethau Pobl, Cyngor Sir Fynwy, Neuadd y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, Sir Fynwy, NP15 1GA**

Caiff penodiad i'r swydd hon ei eithrio o Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr ac mae'n amodol ar Wiriad Datgeliad Estynedig.

Mae Cyngor Sir Fynwy yn gyflogwr cyfle cyfartal ac yn croesawu ceisiadau gan bob adran o'r gymuned.

Mae'r holl swyddi'n agored i'w rhannu os na nodir fel arall.

Mae Cyngor Sir Fynwy yn gweithredu polisi Gweithle Di-fwg.

## PROFFIL Y RÔL

| | |
|---|---|
| **TEITL Y SWYDD** | Gweithiwr Gofal a Chefnogaeth - Gwasanaethau Dydd |
| **RHIF Y SWYDD** | SAS293 |
| **ORIAU** | **15 awr** |
| **GRADD** | Band D [£20.344 – 22,021 pro rata]<br>Amser a hanner ar gyfer Dyddiau Sul |
| **LLEOLIAD** | Parc y Maerdy |

**ASESIAD Y GYMRAEG:**
(b) Mae sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol.

**DIOGELU:**
Mae Diogelu ac Amddiffyn Plant ac Oedolion yn flaenoriaethau allweddol i'r Cyngor. Ein nod yw cefnogi plant ac oedolion sydd mewn perygl i fod mor ddiogel ag y gallant ac i gyflawni eu potensial. Mae holl weithwyr a gwirfoddolwyr y Cyngor yn gyfrifol am chwarae rhan yng ngwaith lles, diogelu ac amddiffyn plant ac oedolion sydd mewn perygl. Bydd yr holl weithwyr a gwirfoddolwyr yn cael eu hyfforddi i'r lefel briodol o ddiogelu ac mae ganddynt ddyletswydd i gyflawni eu cyfrifoldebau personol dros ddiogelu.

**DIBEN Y SWYDD:**

**Tîm Canolfan Adnoddau Parc y Maerdy..... Pwy ydym ni?**
Parc y Maerdy yw'r ganolfan iechyd a gofal cymdeithasol integredig ar gyfer Gogledd Sir Fynwy (Bryn-y-cwm). Mae'r timau a leolir yn y ganolfan yn cynnwys staff nyrsio cymunedol, ffisiotherapi, therapi galwedigaethol, rheoli gofal a thimau gofal uniongyrchol sy'n cefnogi iechyd a lles pobl yn y ganolfan ac yn y gymuned leol. Rhoddir amlinelliad o'r gwasanaethau isod:

- Gwasanaeth Preswyl - darparu amgylchedd diogel a chefnogol i'r bobl hynny nad ydynt yn gallu byw gartref yn ddiogel.
- Seibiannau byr - amrywiaeth o gyfleoedd gan gynnwys seibiant preswyl i alluogi gofalwyr i gael egwyl.
- Gwasanaethau Ailalluogi Cymunedol - cefnogi pobl yn y tymor byr i helpu pobl i adennill eu hannibyniaeth.
- Adsefydlu mewn Canolfan - rhoi cymorth dwys i bobl yn y tymor byr i'w helpu i adennill eu hannibyniaeth.
- Gwasanaethau Gofal Dydd - darparu cyfleoedd o ysgogiad cymdeithasol a galwedigaeth i bobl hŷn sy'n byw yn y gymuned. Gallai hyn fod drwy fynychu'r ganolfan neu gael eu cynorthwyo i wneud cysylltiadau o fewn y gymuned a fyddai o ddiddordeb.

- Gwasanaethau rheoli ac asesu gofal - cefnogi a chyfeirio pobl ar adegau o angen i gael cymorth, gwasanaethau a gwybodaeth.
- Nyrsio Cymunedol a Gwasanaethau Nyrsio Dewi Sant  Darparu ystod o glinigau a gwasanaethau gofal iechyd yn y ganolfan ac yn y gymuned.

Mae'r ganolfan hefyd yn cynnal caffi cymunedol bychan i aelodau'r cyhoedd ei ddefnyddio.

**Ein Pwrpas:**

Mae pawb sy'n ymwneud â gofal a chymorth unigolion yn mynd ati i hyrwyddo canlyniadau'r gwasanaeth uchod.

**Diben y Rôl hon:-**

- Rydym yn hyrwyddo profiad yn seiliedig ar berthynas o dderbyn gofal a chymorth sy'n galluogi bywyd mwy naturiol, sy’n hyrwyddo dewis, rheolaeth, annibyniaeth ac yn diwallu anghenion cymdeithasol ac emosiynol y bobl rydym yn eu cefnogi.
- Gwell gwrando ac asesu. Rydym yn deall 'beth sy'n bwysig' ac rydym yn adnabod y person 'fel arfer'.   Yn y cyd-destun hwn, mae cymorth person-ganolog ond am
  yr unigolyn ac yn seiliedig ar anghenion unigol y person o ran hunanreolaeth, cynhwysiad, hunaniaeth, ymlyniad a chysur.
- Ei wneud yn gartref. Rydym yn cydnabod bod "cartref" yn wahanol i bob un ohonom ac mae ein cartrefi yn adlewyrchu pwy ydym fel unigolyn. I'r rhai sy'n byw ac yn aros ym Mharc y Maerdy, byddwn yn cefnogi’r person i greu cartref a bod gartref; beth yw cysur, diogelwch ac unigoliaeth i chi. Bydd ardaloedd a rennir yn adlewyrchu'r bobl sy'n byw yn y cartref a'u hoffterau.
- Gwasanaethau yn cefnogi ysbryd y person. Byddwn yn rhoi'r un pwys ar les cymdeithasol ac emosiynol y person yn ogystal â'i les corfforol.
- Mae gwasanaethau'n cefnogi teuluoedd, ffrindiau a phobl bwysig eraill i barhau i gymryd rhan a byddant yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys ac yn cael gwrandawiad ac anogaeth i eirioli’n weitrhedol dros eu hanwyliaid.
- Mae'r ganolfan yn edrych, yn swnio ac yn teimlo fel lle i unigolion fynegi eu hunain, cael hwyl, gwneud sŵn, cymryd rhan, bod yn brysur a dod o hyd i enciliad a phreifatrwydd, ac y mae, wrth ei wraidd, beth bynnag mae angen iddo fod er mwyn ymateb i sut mae unrhyw berson yn teimlo ar unrhyw adeg benodol.
- Rydym yn cydnabod pwysigrwydd bwyd a diod i lesiant person. Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd bwyd a sicrhau ein bod yn diwallu anghenion maethol a dietegol yr unigolyn.

- Cynnal cysylltiadau â'u cymunedau lleol - cefnogi pobl i gadw ymdeimlad o hunaniaeth bersonol a chynhwysiant yn y gymuned leol.  Bydd cymunedau'n dod yn fwy cynhwysol a bydd ymwybyddiaeth o ddementia'n cynyddu. Byddwn yn mynd ati i chwilio am gyfleoedd i ymgysylltu â'r gymuned leol drwy gael mynediad i'r gymuned a gwahodd grwpiau cymunedol i ymweld yn rheolaidd.
- Mae gwasanaethau'n gweithio'n agos gyda phawb sy'n ymwneud â chefnogi'r unigolyn ac mae perthynas uniongyrchol yn bodoli sy'n cefnogi dull di-dor ac annibynnol.
- Mae rôl ein timau'n datblygu. Rydym yn defnyddio sgiliau aelodau tîm unigol yn fwy ac yn teimlo eu bod yn cael eu grymuso a'u gwerthfawrogi a bod eu lles yn gwella.

  Mae aelodau tîm unigol yn cymryd rhan lawn mewn datblygiadau.

**Disgwyliad y Rheolwr o'r Rôl hon:-**
Yn syml, rwy'n chwilio am bobl sy'n gallu dod â'r dibynadwyedd, yr ymrwymiad, yr uniondeb a'r brwdfrydedd y mae'r bobl rydym yn eu cefnogi yn eu haeddu.  Mae angen hyn arnaf gan fod yr hyn a wnawn yn bwysig.

**Dyma'r hyn yr wyf yn chwilio amdano o'r rôl hon**:
**Rwyf angen hyn oddi wrthych:-**

- I ddod a chi'ch hun, eich personoliaeth, eich gwên fawr ac ymdeimlad o hwyl. Mae angen i chi ddeall mai 100% yw'r ymrwymiad lleiaf.
- I sicrhau bod gwasanaethau a gweithgareddau mewn canolfannau ' n edrych, yn gadarn ac yn teimlo eu bod yn canolbwyntio ar yr unigolyn; deniadol, bywiog, gweithgar ac ysgogol.  Bydd hyn yn cynnwys gweithio gyda'r swyddog tîm arweiniol i baru diwrnodau penodol ag anghenion penodol yn dibynnu ar ble mae rhywun ar ei daith dementia.
- I fod yn weithiwr allweddol i rai o'r bobl yr ydym yn eu cefnogi gan gymryd yr awenau o ran cysylltu â phobl eraill sy'n ymwneud â'u cymorth
- I weithio'n ddiwyd i ddiogelu unigolion o fewn canllawiau Diogelu Oedolion sy'n Agored i Niwed.
- I weithio gyda phobl mewn ffordd sy'n dangos ffocws parhaus ar fod yn unigolyn-ganolog ac yn canolbwyntio ar berthynas. Bydd angen i chi dreulio amser yn dod i adnabod y bobl rydyn ni'n eu cefnogi a datblygu perthynas sy'n cefnogi eich rôl fel 'gweithiwr proffesiynol cysylltiedig' yn hytrach na rhywun sydd 'ar wahân'
- I gefnogi pobl i wneud cymaint drostynt eu hunain â phosibl gan weithio mewn ffordd sy'n hybu gallu ac nad yw'n meithrin dibyniaeth.
- I ddarparu gofal a chymorth i bobl sydd bob amser yn sensitif, yn gyfrinachol ac yn cynnal urddas y person.
- I helpu pobl gyda phob agwedd ar fywyd bob dydd.  Mae hyn yn cynnwys gofal personol a ddarperir mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar deimladau person ac mewn ffordd sy'n troi tasgau yn ryngweithiadau cymdeithasol cadarnhaol.
- I helpu pobl i gadw mewn cysylltiad â'u ffrindiau, eu teulu a'r gymuned leol, ac ailgysylltu â'u teuluoedd.  Bydd hyn yn golygu darparu cymorth corfforol uniongyrchol a'r cymorth emosiynol i wneud hyn.
- I weithio gyda phobl mewn ffordd gadarnhaol sy'n sicrhau bod yr holl elfennau o ofal sy'n cael eu rheoli yn cael eu dileu ac nad oes sefyllfa 'nhw a ni'.

- I ddeall pwysigrwydd bwyd a diod ym mywydau pobl yn barod i weld amseroedd bwyd fel achlysur ac i eistedd a bwyta gyda'r person sy'n cael ei gynorthwyo.
- I weithio mewn ffordd sy'n cefnogi digymelldeb i'r person
- I ddarparu cymorth yn uniongyrchol i'r gofalwyr 'anffurfiol' hynny sydd hefyd yn cynorthwyo'r person. Byddwch yn deall pwysigrwydd cefnogi teulu, ffrindiau ac eraill i barhau i gymryd rhan yng ngofal y person.
- I weithio'n agos gyda'r swyddog tîm arweiniol ac eraill i sicrhau ansawdd y gwasanaeth a ddarperir
- I weithredu polisïau a gweithdrefnau'r awdurdod yn weithredol.
- I fod yn gymwys i ddefnyddio TG. Bydd angen i chi gadw ffeiliau electronig ar gyfer yr unigolion rydych yn eu cefnogi.
- I weithio'n hyblyg â phobl. Mae arnom angen rhywun sydd ar gael i weithio patrymau sifftiau, penwythnosau a gwyliau'r banc. I fod yn hyblyg i newid yn ôl yr angen i weddu i anghenion y gwasanaeth.
- I fod yn gyfathrebwr da. Bydd angen i chi weithio'n agos gyda phobl gan ddehongli a deall yr ystod lawn o ffyrdd y mae pobl yn cyfathrebu. Bydd angen i chi nodi unrhyw bryderon o ran iechyd a lles y bobl rydym yn eu cefnogi a chyflwyno adroddiad arnynt.
- Yn gallu gofyn am (a darparu) cymorth oddi wrth eich cydweithwyr er mwyn helpu goresgyn heriau'r math hwn o waith. Bydd angen i chi fod yn berson-ganolog tuag at eich cydweithwyr.
- I fod yn rhywun sydd yr un mor gysurus yn gweithio fel rhan o dîm fel ag ydynt yn gweithio ar ben ei hunan.
- I fod yn rhywun sy'n gallu myfyrio'n barhaus ar ei arfer a'i ddatblygiad personol ei hun i nodi lle gellid gwneud pethau'n wahanol neu'n well.
- I ddeall pwysigrwydd mynychu sesiynau goruchwylio a chyfarfodydd 1:1 gyda'ch rheolwr llinell, gan sicrhau eich bod yn defnyddio pob cyfle i rannu, dysgu a thyfu yn eich rôl. Mae angen i chi ddeall pwysigrwydd dysgu a datblygiad hunangyfeiriedig, a chymryd cyfrifoldeb amdano, yn ogystal ag ymrwymiad i'r holl gyfleoedd hyfforddi sydd ar gael i chi.
- Y gallu i feithrin perthynas waith effeithiol gydag amrywiaeth eang o bobl.
- I fod yn rhywun â syniadau, yn agored i newid a ffyrdd newydd o weithio. Fodd bynnag, bydd angen i chi ddilyn protocolau penodol a chytunol mewn perthynas ag iechyd a diogelwch, symud a thrin a meddyginiaethau
- I weithio ar draws meysydd gwasanaeth gan ddarparu dull di-fwlch a chyson o gefnogi unigolion.

**Dyma beth y gallwn ei rhoi i chi:**

- Ymdeimlad mawr o foddhad a balchder.
- Cyfradd cyflog wych gyda gwelliannau yn ystod y penwythnos a gwyliau'r banc.
- Pensiwn
- Tîm rheoli ymroddgar ac ymroddedig.
- Hyfforddiant gwych

**Beth arall sydd angen i chi wybod ... Gwerthoedd Sir Fynwy yw:**

Bod yn agored: Rydym yn anelu at fod yn agored ac yn onest er mwyn datblygu perthynas ymddiriedus.

| | |
|---|---|
| Tegwch: | Rydym yn anelu at ddarparu dewis, cyfleoedd a phrofiadau teg a dod yn sefydliad a adeiladwyd ar gyd-barch. |
| Hyblygrwydd: | Rydym yn anelu at fod yn hyblyg yn ein ffordd o feddwl a gweithredu er mwyn dod yn sefydliad effeithiol ac effeithlon. |
| Gwaith Tîm: | Rydym yn anelu i weithio gyda'n gilydd i rannu ein llwyddiannau a methiannau drwy adeiladu ar ein cryfderau a chefnogi ein gilydd i gyflawni ein nodau. |

A bydd y rôl hon yn gweithio gyda Sir Fynwy i gyflawni'r rhain.

**Yn ogystal â hyn:**
Mae pob gweithiwr yn gyfrifol am gynnal eu hunain mewn modd sy'n cydymffurfio â Pholisi Cyfle Cyfartal Sir Fynwy, yn eu maes cyfrifoldeb eu hunain ac yn eu hymddygiad cyffredinol.

Mae'r awdurdod yn gweithredu polisi Gweithle Di-fwg ac mae'n rhaid i bob cyflogai cydymffurfio â hyn.

# Manyleb y Person

**Sut y byddwn yn gwybod os mai chi yw'r person cywir ar gyfer y swydd? Fel yr ymgeisydd llwyddiannus, byddwch wedi dangos eich bod:-**

- **Mae hon yn rôl gyffrous sy'n rhoi boddhad mawr, ond i gynorthwyo pobl yn ôl pwy ydynt, a'r hyn sy'n bwysig iddynt, mae angen i chi fod yn ganlynol.**
-

| | |
|---|---|
| Nid oes angen profiad cyffredinol arnoch ond byddwch yn rhywun sy'n dangos yn glir eu hymrwymiad, eu brwdfrydedd a'u natur ofalgar. Mae gofalu'n golygu cefnogi rhywun i fyw'n dda a byw bywyd naturiol. Mae hyn yn golygu y bydd y cymorth a ddarparwn bob amser yn canolbwyntio ar sut mae person yn teimlo.... | |
| **Perthnasau** | Byddwch yn deall pwysigrwydd cydberthnasau ac i gefnogi pobl bod angen i ni wybod pwy yw'r person hynny; eu profiadau, eu bywyd a phwy ydynt nawr. |
| **Galluogi** | Byddwch yn gallu gweithio mewn ffordd sy'n golygu bod y person yn cael rhan lawn yn ei fywyd a'i helpu i bennu a chyflawni ei ganlyniadau a'i nodau personol beth bynnag yw'r rhain. |
| **Dull** | Byddwch yn mabwysiadu dull unigol ar gyfer pob unigolyn, yn seiliedig ar bwy ydynt a sut maent yn teimlo. Byddwch yn newid ac yn addasu'n barhaus i aros yn y foment ac yn cefnogi rhywun yn ôl yr hyn sy'n bwysig. |
| **Argaeledd a Hyblygrwydd** | Bydd angen i chi weithio ar adegau o'r dydd y mae angen cymorth ar bobl a'ch bod yn deall y bydd hyn yn newid ar unrhyw ddiwrnod penodol yn ôl sut mae'r person hwnnw'n teimlo. Mae hyn yn golygu canolbwyntio ar yr unigolyn ac nid ar drefn arferol. |
| **Eich Hunan** | Byddwch yn rhywun sy'n gyfforddus a bod eich hun yn y gwaith ac rydych yn hunanymwybodol ac yn agored. |
| **Teimladau** | Byddwch yn emosiynol gynnes, gan gynnig agosatrwydd ac empathi at bob unigolyn |
| **Gyda'n Gilydd** | Rydych chi'n rhywun sy'n gallu bod yn ffrind i'r bobl rydym yn eu cefnogi; gyda hwy a ni. |
| **Ysbrydoledig** | Byddwch yn angerddol ac yn gadarnhaol; yn gallu gwneud cysylltiad â phobl sy'n gwneud gwahaniaeth. |
| **Meithrin** | Byddwch yn rhywun a all ddarparu cysur, diogelwch ac ymdeimlad o berthyn |
| **Derbyn** | Byddwch yn gallu bod yn gadarnhaol am realiti unigolyn a'i ddealltwriaeth o'r ffaith y gellir arddangos teimladau fel gweithredoedd neu eiriau. |
| **Digymell** | Byddwch yn rhywun sy'n gallu creu cyfleoedd a fydd yn darparu galwedigaeth a symbyliad. Byddwch yn gallu meddwl ar eich traed a newid yr eiliad. |
| **Tîm** | Byddwch yn deall pa mor bwysig yw eich bod yn cyfrannu at y tîm gan ddeall bod y canlyniadau ar gyfer y bobl rydym yn eu cefnogi yn gwella pan fydd y tîm yn cydweithio'n dda. Bydd gennych y gallu i gyfathrebu'n agored a gwrando ar syniadau pobl eraill |

| | |
|---|---|
| **Cefnogol** | Byddwch yn gyfforddus i fynegi eich emosiynau eich hun a chefnogi eraill gyda'u rhai nhw. |
| **Tyfu** | Bydd angen i chi fod yn agored i ddysgu, herio a hunanfyfyrio. |
| **Gyrru** | Mae defnydd car a thrwydded yrru lawn y DU yn hanfodol. Mae gyrru bws mini yn hanfodol ar gyfer y rôl hon (Darperir hyfforddiant MIDDAS) |
| **Cymwysterau** | Nid oes angen cymhwyster i wneud cais am y swydd hon ond mae'n rhaid i chi fod yn barod i ymgymryd â Lefel 2 FfCCh mewn Gofal. |
| | |

# FFRAMWAITH SGILIAU IAITH GYMRAEG

| LEFEL 1 | | | |
|---|---|---|---|
| *Gall ddeall ymadroddion sylfaenol bob dydd os yw'r siaradwr yn siarad yn araf ac yn glir ac yn fodlon helpu. Gall gyflwyno ei hunan ac eraill a gall ofyn ac ateb cwestiynau am wybodaeth sylfaenol e.e. unigolyn yn gofyn am weld rhywun, ble mae cyfarfod xxx, toiled ac yn y blaen. Gall drosglwyddo galwadau ffôn, cyfleu neges fer neu wneud cais syml e.e. drwy e-bost.* | | | |
| **DEALL** | **SIARAD** | **DARLLEN** | **YSGRIFENNU** |
| ➢ Gall ddeall cwestiynau syml: lle mae cyfarfod xxx, pwy yw'r person y dymunant ei weld. Gall ddeall i bwy i drosglwyddo galwad ffôn ac yn y blaen. | ➢ Gallu ynganu enwau lleoedd ac enwau personol yn gywir.<br>➢ Gall gyfarch unigolion wyneb yn wyneb neu dros y ffôn.<br>➢ Gall agor a chau sgwrs neu agor a chau cyfarfod. | ➢ Gall ddarllen brawddeg fer, e.e. arwyddion syml, cyfarwyddiadau syml, eitemau agenda, gwybodaeth syml ar ffurflenni. | ➢ Gall agor a chau neges e-bost neu lythyr.<br>➢ Gall ysgrifennu enwau personol, enwau lleoedd, teitlau swyddi.<br>➢ Gall ysgrifennu neges syml i gydweithiwr ar bapur neu e-bost e.e. mae hwn a hon wedi galw. |
| **LEFEL 2** | | | |
| *Gall ddeall brawddegau pan mae pobl yn siarad am sefyllfaoedd bob dydd, e.e. gwybodaeth bersonol a theuluol syml. Gall gynnal sgwrs sylfaenol gyda rhywun i gael neu gyfnewid gwybodaeth syml, e.e. trafod sut mae person yn teimlo; rhywbeth a ddigwyddodd; cynllun syml ar gyfer y dyfodol. Gall ysgrifennu a deall negeseuon mewn llythyrau neu negeseuon e-bost yn disgrifio materion cyfarwydd ac ysgrifennu mewn brawddegau byr.* | | | |
| **DEALL** | **SIARAD** | **DARLLEN** | **YSGRIFENNU** |
| ➢ Gall ddeall pan mae pobl yn siarad yn araf am sefyllfaoedd bob dydd e.e. rhoi gwybodaeth bersonol, siarad am beth fuont yn ei wneud, yr hyn yr hoffent ei wneud, sut y teimlant yn gyffredinol.<br>➢ Gall ddeall pan mae pobl yn gofyn iddynt wneud rhywbeth. | ➢ Gall gyfathrebu gwybodaeth syml neu ofyn cwestiynau cyffredin, e.e. cael gwybodaeth gan unigolion.<br>➢ Gall ddefnyddio'r Gymraeg i gyrraedd a dangos empathi gydag unigolyn ond dim i gynnal yr holl sgwrs neu sesiwn yn y Gymraeg.<br>➢ Gall gynnal sgwrs fer gydag unigolyn neu gyfnewid gwybodaeth cymharol syml.<br>➢ Gall gyfrannu at gyfarfod ond bydd angen troi i'r Saesneg ar gyfer termau arbenigol. | ➢ Gall ddarllen negeseuon byr a rhai llythyrau neu negeseuon e-bost, e.e. rhai sy'n gwneud cais neu'n gofyn am gyfleu neges. | ➢ Gall ysgrifennu neges fer at gydweithiwr yn gofyn cwestiwn, yn diolch iddo/iddi, esbonio rhywbeth e.e. amser a lle cyfarfod.<br>➢ Gall ysgrifennu llythyr neu neges e-bost byr i drefnu apwyntiad. |
| **LEFEL 3** | | | |
| *Gall ddeall y prif bwyntiau pan mae unigolyn neu gydweithiwr yn siarad am bynciau cyfarwydd e.e. yn ystod sgwrs neu gyfarfod grŵp bach. Gall gynnal sgyrsiau estynedig gyda siaradwyr rhugl am bynciau cyfarwydd yn ymwneud â gwaith bob dydd. Gall ddisgrifio profiadau a digwyddiadau a rhoi esboniadau am a rhesymau cryno am farnau a chynlluniau. Gall ddarllen erthyglau, llythyrau neu negeseuon e-bost am bynciau cyffredinol. Gall ysgrifennu llythyrau neu negeseuon e-bost am y rhan fwyaf o bynciau, e.e. yn gofyn am rywbeth; rhoi gwybodaeth; gwahodd rhywun neu drefnu digwyddiad.* | | | |

| DEALL | SIARAD | DARLLEN | YSGRIFENNU |
|---|---|---|---|
| ➢ Gall ddeall unigolion a chydweithwyr wrth gyfnewid gwybodaeth neu drafod cynlluniau, os yw'r pwnc yn gyfarwydd.<br>➢ Gall ddeall trafodaeth mewn cyfarfod os yw'r pwnc yn gyfarwydd.<br>➢ Gall ddeall unigolion a chydweithwyr mewn sefyllfa gyfarwydd neu mewn sgwrs bob dydd. | ➢ Gall gymryd rhan yn y rhan fwyaf o sgyrsiau gyda chydweithwyr am waith a chynlluniau os nad yw'r eirfa yn rhy dechnegol.<br>➢ Gall gynnal sgwrs gydag unigolyn neu gyfnewid gwybodaeth cymharol syml.<br>➢ Gall gyfrannu at gyfarfod ond gall fod angen troi i'r Saesneg am dermau arbenigol.<br>➢ Gall addasu cywair iaith i weddu i'r gynulleidfa. | ➢ Gall ddeall y rhan fwyaf o negeseuon e-bost neu lythyrau'n ymwneud â gwaith dydd i ddydd.<br>➢ Gall ddyfalu ystyr gair yn seiliedig ar gyd-destun os yw'r pwnc yn gyfarwydd.<br>➢ Gall ddarllen erthygl syml a rhwydd mewn papurau newydd neu fathau o ddeunydd ysgrifenedig mewn cylchgrawn. | ➢ Gall ysgrifennu llythyr neu neges e-bost at unigolyn neu gydweithiwr am y rhan fwyaf o bynciau er mwyn gofyn am rywbeth; rhoi esboniad; disgrifio profiad neu sefyllfa; gwahodd pobl neu drefnu digwyddiad.<br>➢ Gallu ysgrifennu'n gymharol gywir wrth ddrafftio taflen wybodaeth fer neu boster yn Gymraeg fel bo'r angen. |

**LEFEL 4**

*Gall fel arfer ddilyn y rhan fwyaf o sgyrsiau neu drafodaethau, hyd yn oed ar bynciau anghyfarwydd, gall siarad yn hyderus gyda siaradwyr rhugl am bynciau cyfarwydd yn ymwneud â gwaith, a mynegi barn, cymryd rhan mewn trafodaeth a siarad yn helaeth am bynciau cyffredinol e.e. mewn cyfarfodydd neu sefyllfaoedd un-i-un gydag unigolion. Gall ddeall y rhan fwyaf o ohebiaeth, erthyglau papur newydd ac adroddiadau a fwriedir ar gyfer siaradwyr rhugl gyda chymorth adnoddau Cymraeg a gall fwrw golwg dros destunau hir i ganfod manylion. Gall gwblhau ffurflenni ac ysgrifennu adroddiadau'n ymwneud â gwaith ac ymateb yn gywir.*

| DEALL | SIARAD | DARLLEN | YSGRIFENNU |
|---|---|---|---|
| ➢ Gall ddilyn y rhan fwyaf o sgyrsiau a thrafodaethau gydag unigolion neu gydweithwyr hyd yn oed os yw'r deunydd pwnc yn anghyfarwydd. | ➢ Gall gyfrannu'n effeithlon at gyfarfodydd mewnol ac allanol mewn cyd-destun gwaith.<br>➢ Gall sgwrsio'n gysurus gydag unigolion a chyfnewid gwybodaeth fel sydd angen.<br>➢ Gall ddadlau dros ac yn erbyn achos penodol.<br>➢ Gall gadeirio cyfarfodydd ac ateb cwestiynau o'r gadair yn hyderus. | ➢ Gall ddarllen y rhan fwyaf ohebiaeth a bwrw golwg ar destunau hir i ganfod manylion.<br>➢ Gall ddeall y rhan fwyaf o erthyglau ac adroddiadau papur newydd gyda chymorth geiriadur.<br>➢ Gall ddeall testunau, os na ysgrifennwyd mewn dull ffurfiol iawn neu dafodieithol. | ➢ Gall gynhyrchu gohebiaeth o bob math, adroddiadau byr, dogfennau a llenyddiaeth gyda chymorth offer cyfieithu Cymraeg e.e. Cysgeir, Cysill. |

**LEFEL 5**

*Gall ddeall popeth a gaiff ei ddweud. Gall siarad yn helaeth am faterion cymhleth, gan gyflwyno gwybodaeth anodd a gall hwylu so a chrynhoi trafodaethau estynedig neu gymhleth. Gall grynhoi gwybodaeth o wahanol ffynonellau (yn llafar ac yn ysgrifenedig) a'i chyflwyno mewn modd cydlynus. Gall fynegi ei hunan yn fyrfyfyr, rhugl ac yn fanwl, gan addasu'r iaith i weddu i'r gynulleidfa.*

| DEALL | SIARAD | DARLLEN | YSGRIFENNU |
|---|---|---|---|
| ➢ Gall ddilyn pob sgwrs a thrafodaeth gydag unigolion neu gydweithwyr.<br>➢ Gall ddeall amwysedd a naws iaith. | ➢ Gall fynegi ei hunan yn fanwl, hyd yn oed wrth drafod materion cymhleth.<br>➢ Gall addasu arddull a chywair yr iaith i weddu i'r gynulleidfa. | ➢ Gall ddarllen a deall bron bob testun ysgrifenedig heb anhawster, gan ddefnyddio geiriadur yn achlysurol.<br>➢ Gall ddarllen testunau hir i ganfod manylion perthnasol a gall ddeall y rhan fwyaf o fathau o ddeunydd ysgrifenedig. | ➢ Gall ysgrifennu adroddiadau mewn arddull glir addas i'r darllenydd gyda chefnogaeth offer cymorth iaith electronig.<br>➢ Gall ysgrifennu Cymraeg ffurfiol neu anffurfiol yn ôl yr angen.<br>➢ Gall ysgrifennu ystod o ddogfennau yn gywir ac yn hyderus. |